Trosolwg o ganlyniadau TGAU a Lefel 1 / 2 Bagloriaeth Cymru - Haf 2017

Cymwysterau Cymru yw'r corff annibynnol sy'n rheoleiddio cymwysterau yng Nghymru. Rydym yn goruchwylio sut mae byrddau arholi yn dyfarnu cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru.

Crynodeb o ganlyniadau TGAU: Cymru[1]

O gymharu â chanlyniadau haf 2016 ar gyfer pob ymgeisydd:

- nid yw'r gyfran sy'n cyflawni A*, sef 6.1%, wedi newid
- mae'r gyfran sy'n cyflawni A* ac A wedi gostwng 1.5 pwynt canran i 17.9%
- mae'r gyfran sy'n cyflawni A* ac C wedi gostwng 3.8 pwynt canran i 62.8%
- mae'r gyfran sy'n cyflawni A* i G wedi gostwng 1.8 pwynt canran i 96.9%

Mae canlyniadau TGAU yng Nghymru ar y cyfan yr haf hwn ar gyfer pob myfyriwr wedi gostwng. Un ffactor arwyddocaol sy'n cyfrannu at y gostyngiad hwn yw'r newid sylweddol mewn patrymau cofrestru, yn benodol, cynnydd sylweddol yn nifer y cofrestriadau Blwyddyn 10 a nifer fawr o fyfyrwyr Blwyddyn 11 sy'n cyflawni eu cymwysterau mathemateg ym mis Tachwedd. Mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu at sefyllfa yr haf hwn lle mae natur y garfan wedi newid yn sylweddol. Mae'r duedd gynyddol o gofrestru'n gynnar yn golygu bod mwy o fyfyrwyr wedi sefyll arholiadau'n gynnar, wedi 'bancio' canlyniad a heb ddychwelyd i sefyll yr arholiad eto yr haf hwn; bydd llawer o'r rhain yn fyfyrwyr sydd wedi cyflawni Gradd C neu uwch a fyddai fel arall yn ymddangos yng nghanlyniadau'r haf hwn. **O ganlyniad, ni ellir llunio casgliadau dibynadwy o gymariaethau uniongyrchol rhwng canlyniadau haf 2017 a haf 2016, na chymariaethau uniongyrchol rhwng canlyniadau'r haf ledled y DU.**

Mae'r trosolwg hwn yn cynnwys cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn gan ddefnyddio'r data mwyaf perthnasol ac mae'n egluro o ble y cafwyd y data hyn.

Yn gyffredinol, mae perfformiad wedi gwella mewn rhai pynciau ac wedi gostwng mewn eraill; mae hyn i'w ddisgwyl gan fod carfanau yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, o ran maint ac o ran gallu.

[1] Nid yw'r gymhariaeth ar gyfer A* yn cynnwys unrhyw ddyfarniadau yn y raddfa graddau 9-1, gan nad oes gradd uniongyrchol gyfatebol. Mae'r pwyntiau cymharu eraill yn cynnwys y dyfarniadau hyn gan fod pwyntiau angori cyfatebol ar y ddwy raddfa graddau.

Mae canlyniadau TGAU eleni yn cynnwys pynciau sydd wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer dysgwyr yng Nghymru ac a astudiwyd gan y dysgwyr hynny:

- Saesneg Iaith;
- Cymraeg Iaith;
- Llenyddiaeth Saesneg;
- Llenyddiaeth Gymraeg;
- Mathemateg-Rhifedd; a
- Mathemateg.

Heblaw am TGAU Mathemateg a Mathemateg – Rhifedd, a ddyfarnwyd am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2016, yr haf hwn yw'r tro cyntaf i'r cymwysterau TGAU newydd gael eu dyfarnu yn y pynciau hyn.

Rydym wedi monitro gwaith CBAC o gyflwyno'r cymwysterau newydd hyn yn agos ac rydym yn hyderus bod safonau wedi cael eu cynnal. Mae cymwysterau TGAU mewn pynciau eraill nad ydynt wedi'u diwygio eto yn parhau i gael eu dyfarnu ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym wedi cydweithio'n agos â rheoleiddwyr cymwysterau yn y gwledydd hynny (Ofqual a CCEA) er mwyn goruchwylio'r dyfarniadau hyn fel rhan o'r dull rheoleiddio ar sail tair gwlad presennol.

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu diwygio ar wahân yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ogystal ag yma yng Nghymru. Yn ystod y diwygiadau hyn, buom yn gweithio'n agos gyda'r rheoleiddwyr yn y gwledydd hyn er mwyn sicrhau y rhoddir yr un gwerth i'r cymwysterau TGAU newydd. Mae cymhwyster TGAU yn dal i fod yn gymhwyster TGAU, p'un a gaiff ei astudio yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon. Er bod rhai gwahaniaethau yn y cynnwys, y strwythurau asesu a hyd yn oed y graddfeydd graddau, gellir cydnabod mai cymwysterau TGAU yw'r cymwysterau a gaiff eu hastudio gan fyfyrwyr ym mhob gwlad yn y bôn. Maent o'r un maint, cânt eu hastudio gan fyfyrwyr o'r un gallu ac maent yn asesu yr un deilliannau neu rai tebyg iawn ym mhob maes pwnc.

Bu'r dull a ddefnyddiwyd i ddyfarnu yn gyson â threfniadau hirsefydlog. Mae byrddau arholi wedi defnyddio data am sut y perfformiodd carfanau mewn arholiadau blynyddoedd blaenorol er mwyn darogan sut y bydd y garfan yn debygol o berfformio yr haf hwn; gelwir hyn yn 'ddull canlyniadau cymaradwy'.

Os bydd y garfan sy'n astudio pwnc eleni yn debyg, o ran ei berfformiad yn y gorffennol, i'r garfan a astudiodd y pwnc y llynedd (ac nad ymddengys fod unrhyw beth arall yn newid), y disgwyliad yw y bydd y canlyniadau gradd cyffredinol ar gyfer y ddwy garfan yn debyg. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bwysig y caiff ffiniau graddau eu pennu gan fwrdd arholi ar gyfer pob cyfres arholiadau ac maent yn gymwys i bob myfyriwr a safodd ei arholiadau yn y gyfres honno.

Mae'r egwyddor canlyniadau cymaradwy yn sicrhau y caiff amrywioldeb canlyniadau ar y lefel genedlaethol ei gyfyngu; mae hyn yn gwarchod safonau ac yn sicrhau tegwch ar gyfer myfyrwyr, sy'n arbennig o bwysig pan fydd cymwysterau'n newid. Fodd bynnag, pan fydd newidiadau, mae mwy o amrywioldeb i'w weld fel arfer yng nghanlyniadau ysgolion a cholegau unigol.

Cofrestriadau TGAU: Cymru

Cafwyd cynnydd o 14% yng nghyfanswm y cofrestriadau[2] ar gyfer TGAU yng Nghymru yr haf hwn o gymharu â 2016 (262,542 yn 2016 i 298,370 yn 2017). Mae'r cynnydd hwn yn bennaf oherwydd:

- Y cynnydd sylweddol yn y cofrestriadau Blwyddyn 10 (roedd tua 16% o'r holl gymwysterau a safwyd yr haf hwn gan fyfyrwyr Blwyddyn 10);
- Mae'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr yn astudio'r ddau gymhwyster mathemateg newydd: TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd.

[2] Pan fyddwn yn cyfeirio at gofrestriadau, rydym yn cyfeirio at nifer y myfyrwyr a safodd yr arholiad ac y dyfarnwyd canlyniad iddynt.

Mae cyfanswm y myfyrwyr 15 mlwydd oed ac iau (myfyrwyr Blwyddyn 10 yn bennaf) a gofrestrodd yr haf hwn wedi cynyddu 57% i 47,821. Mae cyfanswm y myfyrwyr a astudiodd gymhwyster TGAU ar ôl gadael Blwyddyn 11 (myfyrwyr 17 mlwydd oed a hŷn) wedi cynyddu 13% i 15,644.

Roedd y rhan fwyaf o'r cofrestriadau yr haf hwn gan fyfyrwyr ym Mlwyddyn 11 (myfyrwyr 16 mlwydd oed), a oedd yn cyfrif am 79% o gyfanswm y cofrestriadau. Nifer y cofrestriadau Blwyddyn 11 oedd 234,905, sef cynnydd o 8% o gymharu â nifer y myfyrwyr Blwyddyn 11 a gofrestrodd yn haf 2016. Mae hyn yn bennaf oherwydd y ddau gymhwyster TGAU mathemateg newydd sydd wedi disodli'r hen TGAU Mathemateg.

Mae'r newidiadau hyn ym maint a natur y garfan yn ystyriaethau hanfodol wrth ddehongli canlyniadau; yn benodol, nifer y myfyrwyr Blwyddyn 10 na fyddant wedi cwblhau eu rhaglenni astudio eto.

TGAU Mathemateg

Mae'r ffigurau cofrestru ar gyfer TGAU Mathemateg wedi amrywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf wrth i fwy o fyfyrwyr gofrestru ar gyfer arholiadau mis Tachwedd. Yn ychwanegol eleni, mae dau gymhwyster mathemateg wedi disodli'r hen gymhwyster.

O ganlyniad, ni ellir llunio casgliadau dibynadwy wrth gymharu canlyniadau haf 2017 a haf 2016.

Ym mis Tachwedd 2016, safodd 22,688 o fyfyrwyr y cymhwyster TGAU Mathemateg newydd a safodd 28,753 o fyfyrwyr y cymhwyster TGAU Mathemateg-Rhifedd newydd. Yr haf hwn, safodd 36,330 y cymhwyster TGAU Mathemateg newydd a safodd 32,260 y cymhwyster TGAU Mathemateg-Rhifedd newydd. Yn haf 2016, 30,570 a safodd yr hen gymhwyster TGAU Mathemateg.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, nodir y data ar gyfer y flwyddyn academaidd isod. Dim ond y radd orau a gyflawnodd myfyriwr naill ai yng nghyfres arholiadau mis Tachwedd neu gyfres arholiadau'r haf y mae'r data hyn yn ei gynnwys.

Mae'r canlyniadau ar gyfer myfyrwyr 16 mlwydd oed yn ystod y flwyddyn academaidd hon ar gyfer y cymhwyster TGAU mathemateg newydd fel a ganlyn:

	TGAU Mathemateg-Rhifedd (% cronnol)	TGAU Mathemateg (% cronnol)
A*	7.8	9.4
A*-A	16.4	17.7
A*-C	58.5	60.0
A*-G	95.9	96.5

O ystyried maint y newid rhwng yr hen gymhwyster TGAU mathemateg a'r ddau gymhwyster TGAU mathemateg newydd, ynghyd â'r ffaith y gall myfyrwyr gofrestru fwy nag unwaith, ni ellir llunio cymariaethau manwl rhwng canlyniadau'r flwyddyn flaenorol a'r canlyniadau eleni.

Yn y tabl isod, nodir y canlyniadau gorau ar gyfer **myfyrwyr 16 mlwydd oed yn y flwyddyn academaidd hon o gymharu â blynyddoedd academaidd 2015/2016 a 2014/2015**, gan mai'r rhain yw'r cymaryddion mwyaf cyson:

	2014/2015 % cronnol	2015/2016 % cronnol	2016/2017 % cronnol
A*	6.8	7.5	10.9
A*-A	16.0	17.4	19.9
A*-C	63.7	65.5	63.8
A*-G	97.9	98.7	97.9

TGAU Saesneg Iaith

Rhwng 2016 a 2017, bu cynnydd sylweddol o 67% yng nghyfanswm y cofrestriadau ar gyfer TGAU Saesneg Iaith i 58,857. Mae nifer y myfyrwyr Blwyddyn 10 a gofrestrodd eleni wedi cyfrannu at y cynnydd sylweddol hwn. Mae nifer y cofrestriadau Blwyddyn 10 wedi cynyddu o 128 i 20,979 tra bod nifer y cofrestriadau gan ddysgwyr dros 16 mlwydd oed wedi cynyddu 14% o 5,954 yn 2016 i 6,814 yn 2017.

Roedd yn bosibl i fyfyrwyr sefyll y cymhwyster TGAU Saesneg Iaith blaenorol naill ai yng nghyfres arholiadau mis Ionawr neu gyfres arholiadau'r haf. Eleni dim ond yng nghyfres yr haf yr oedd yn bosibl iddynt sefyll y cymhwyster newydd, felly dylid gochel rhag cymharu data'r haf hwn â data o flynyddoedd blaenorol. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r data hanesyddol a ddarperir isod ar gyfer y flwyddyn academaidd. Dim ond y radd orau a gyflawnodd myfyriwr naill ai yng nghyfres arholiadau mis Tachwedd neu gyfres arholiadau'r haf y mae'r data hyn yn ei gynnwys.

O ystyried y newid sylweddol yn y patrwm cofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn, ni ellir llunio casgliadau dibynadwy wrth gymharu rhwng canlyniadau pob myfyriwr yn haf 2017 a haf 2016. Felly, rydym wedi defnyddio canlyniadau myfyrwyr 16 mlwydd oed fel yr unig gymaryddion cyson.

Nodir y canlyniadau ar gyfer **myfyrwyr 16 mlwydd oed eleni o gymharu â blynyddoedd academaidd 2014/2015 a 2015/2016** yn y tabl isod:

	2014/2015 % cronnol	2015/2016 % cronnol	2016/2017 % cronnol
A*	3.1	2.8	3.2
A*-A	13.8	13.6	14.3
A*-C	64.5	64.2	64.8
A*-G	99.2	99.2	98.6

TGAU Cymraeg Iaith

O ran TGAU Cymraeg Iaith, mae cyfanswm y cofrestriadau wedi cynyddu oherwydd cynnydd sylweddol yn y cofrestriadau Blwyddyn 10 o 1 i 1,003.

O ystyried y newid sylweddol yn y patrwm cofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn, ni ellir llunio casgliadau dibynadwy wrth gymharu rhwng canlyniadau pob myfyriwr yn haf 2017 a haf 2016. Felly, rydym wedi defnyddio canlyniadau myfyrwyr 16 mlwydd oed fel yr unig gymaryddion cyson.

Nodir y canlyniadau ar gyfer **myfyrwyr 16 mlwydd oed eleni o gymharu â blwyddyn academaidd 2015/2016** yn y tabl isod:

	2015/2016 % cronnol	2016/2017 % cronnol
A*	3.9	4.0
A*-A	15.4	15.6
A*-C	73.9	73.6
A*-G	99.8	99.6

TGAU Llenyddiaeth Saesneg

Bu gostyngiad o 44% yng nghyfanswm y cofrestriadau yn yr haf ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Saesneg i 16,835. Mae'r cynnydd sylweddol o 276% y llynedd yn y cofrestriadau Blwyddyn 10 o 2,038 i 7,657 yn egluro hyn i raddau helaeth. Ar y cyfan, mae 21,925 o'r myfyrwyr Blwyddyn 11 presennol wedi cyflawni cymhwyster TGAU Llenyddiaeth Saesneg (a safwyd naill ai ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11) o gymharu â 24,542 yn 2016.

Dangosir y canlyniadau ar gyfer **myfyrwyr 16 mlwydd oed a gyflawnodd gymhwyster TGAU mewn Llenyddiaeth Saesneg (a safwyd naill ai ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11)** yn y tabl isod:

	2015/2016 % cronnol	2016/2017 % cronnol
A*	4.3	4.1
A*-A	19.8	19.9
A*-C	77.5	77.1
A*-G	99.3	99.3

TGAU Llenyddiaeth Gymraeg

Mae cyfanswm y cofrestriadau a chanlyniadau ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Gymraeg wedi aros yn sefydlog.

Nodir y canlyniadau ar gyfer **myfyrwyr 16 mlwydd oed eleni o gymharu â 2015/2016** yn y tabl isod:

	2015/2016 % cronnol	2016/2017 % cronnol
A*	8.2	9.0
A*-A	23.4	24.2
A*-C	74.5	75.1
A*-G	99.9	99.9

Cyfres TGAU Gwyddoniaeth

Caiff y cymwysterau TGAU gwyddoniaeth newydd eu dyfarnu am y tro cyntaf y flwyddyn nesaf ac mae myfyrwyr Blwyddyn 10 yn eu hastudio ar hyn o bryd. Felly, mae hyn yn golygu y gwelwyd gostyngiad sylweddol o 78% eleni yng nghyfanswm y cofrestriadau gan fyfyrwyr Blwyddyn 10 ar gyfer yr hen gymhwyster TGAU Gwyddoniaeth o 23,941 i 5,157. O ystyried ein bod hanner ffordd drwy'r broses o gyflwyno'r fanyleb newydd, mae hyn i'w ddisgwyl. Mae'r newid sylweddol hwn mewn cofrestriadau yn golygu na ellir gwneud cymariaethau wrth ddadansoddi canlyniadau o flwyddyn i flwyddyn.

Ymhellach, bu cynnydd o 26% yng nghyfanswm y cofrestriadau ar gyfer yr hen gymhwyster TGAU Gwyddoniaeth Ychwanegol i 16,315. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu'r myfyrwyr a symudodd o gyrsiau gwyddoniaeth galwedigaethol i'r cymwysterau TGAU y llynedd, wrth i ysgolion baratoi ar gyfer y newidiadau i'r mesurau perfformiad ysgolion yn 2018. Felly, mae angen bod yn ofalus wrth gymharu haf 2017 a haf 2016.

Bagloriaeth Cymru

Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru CA4

Yr haf hwn, caiff y Dystysgrif Her Sgiliau CA4 Bagloriaeth Cymru newydd ei dyfarnu am y tro cyntaf. Mae Tystysgrif Her Sgiliau CA4 yn cyfateb o ran maint a galw i gymhwyster TGAU. Caiff ei graddio ar A*-C am gyflawniad ar Lefel 2 a Llwyddiant* a Llwyddiant ar Lefel 1.

	2017
Ymgeiswyr a gofrestrwyd	23,443
Ymgeiswyr y dyfarnwyd Tystysgrif Her Sgiliau CA4 iddynt	21,755
% sy'n cyflawni Tystysgrif Her Sgiliau CA4	92.7

Canlyniadau Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru CA4 (canrannau cronnol)

	2017
A*	1.1
A*-A	7.0
A*-C	67.5

Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys data hanesyddol gan fod y cymhwyster wedi newid mor sylweddol fel nad yw'n briodol cymharu o flwyddyn i flwyddyn.

Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru ôl-16

Dyma'r ail flwyddyn i gymhwyster newydd Bagloriaeth Cymru ôl-16 gael ei ddyfarnu a chafwyd y canlyniadau canlynol mewn perthynas â'r Dystysgrif Her Sgiliau:

Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru ôl-16 Genedlaethol

	2016	2017
Ymgeiswyr a gofrestrwyd	1,259	877
Ymgeiswyr y dyfarnwyd y Dystysgrif Her Sgiliau ôl-16 Genedlaethol iddynt	1,015	691
% sy'n cyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau ôl-16 Genedlaethol	80.6	78.8

Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru ôl-16 Sylfaen

	2016	2017
Ymgeiswyr a gofrestrwyd	908	728
Ymgeiswyr y dyfarnwyd y Dystysgrif Her Sgiliau ôl-16 Sylfaen iddynt	859	620
% sy'n cyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau ôl-16 Sylfaen	94.6	85.2

Rhagor o wybodaeth

Mae'r data uchod yn seiliedig ar ganlyniadau'r Cyd-bwyllgor Cymwysterau (JCQ). Cyhoeddir canlyniadau TGAU llawn gan **JCQ** a chyhoeddir canlyniadau llawn Bagloriaeth Cymru gan **CBAC**.